# Cenn@d

HYDREF 15 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 242

## O Ganada ac o Ghana – croeso i Gymru

Bob blwyddyn bydd criw o weinidogion ac offeiriaid yn cyrraedd Cymru o nifer o wledydd gwahanol i ddechrau ar eu gwaith fel arweinwyr eglwysig mewn plwyfi a gofalaethau. Ac ers rhai blynyddoedd mae Cytûn wedi bod yn paratoi cwrs ar eu cyfer, sef Croeso i Gymru, a hynny dros dridiau yng Nghaerdydd, i'w cyflwyno i wahanol agweddau ar fywyd a diwylliant Cymru.




Eleni cynhaliwyd y gynhadledd yng nghanolfan Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, gyda 12 person yn cynrychioli gwahanol enwadau a thraddodiadau'n ei mynychu. Roedd yna weinidog o Ganada, offeiriaid o Ghana, o Iwerddon ac o'r Eidal, arweinydd o Rwmania, ac wrth gwrs nifer o Loegr. Roeddent i gyd newydd ddechrau mewn gofalaethau newydd: yng Nghaergybi, Bangor, Abergele, Glannau Dyfrdwy, Aberystwyth, y Fenni, Penfro a Chaerdydd.

Pwrpas y tridiau hyn oedd cyflwyno agweddau sy'n unigryw i Gymru iddynt, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r iaith wrth gwrs. Trefnwyd y cyfan gan Sasha Perriam ar ran Cytûn, a diolchwn iddi am ei threfniadaeth fanwl a gofalus. Cafwyd croeso a chyflwyniad agoriadol gan Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, er mwyn gosod y cyd-destun Cymreig. Yn ogystal â hynny, cafwyd cyflwyniad i ddeunyddiau addoli dwyieithog ac i waith tystiolaeth Cytûn gen i, a chyflwyniad i waith Cymorth Cristnogol gan Mari McNeill a Jenny Weaver. Wedi'r cyflwyniadau, fe gafwyd dwy awr o wersi Cymraeg gan Sian, cyn cyfle i ymlacio dros swper ym mwyty Eidalaidd Elgano. Wedi'r swper, roedd Ynyr Roberts yn disgwyl amdanom, a chafwyd detholiad hyfryd o ganeuon ganddo, gan gynnwys y gân eiconig 'Haleliwia'!

Ar yr ail fore, taith fws oedd yn ein disgwyl – i Sain Ffagan, lle cawsom ein tywys o gwmpas gan yr hanesydd Dr Elin Jones, cyn mynd ymlaen i'r Senedd, lle roedd Peredur Griffiths AS yn disgwyl amdanom. Cawsom sgwrs ar weithdrefnau'r Senedd, yn ogystal â chyfle i gael cip ar Feibl William Morgan, sy'n cael ei arddangos yno ar hyn o bryd. Wedi dychwelyd i'r Ganolfan, cafwyd sesiwn pellach dan ofal Iestyn Davies, swyddog polisi Cytûn, a braf oedd gweld pawb yn ymddiddori ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Ar y diwrnod olaf cafwyd cyflwyniadau ar 'Ffydd yn y Bae' ac agweddau rhyng-ffydd, dan arweiniad Dean, Kate a Radhika. Gobeithiwn bydd y tridiau hyn yn helpu'r 12 ohonynt i gartrefu'n dda yn ein plith, ac iddynt deimlo ein croeso cynnes.

Byddwn yn annog unrhyw weinidog neu weithiwr sy'n symud i Gymru i gofrestru ar gyfer 2026, gan annog yr enwadau'n ganolog i hysbysebu a hyrwyddo'r cwrs arbennig hwn. Byddai Sasha yn falch o glywed am rai fyddai â diddordeb mewn ymuno – y dyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yw 23–5 Medi, eto yng Nghaerdydd.

*Aled Davies*




Pobl gobaith mewn byd o ofn
**Tudalen 2**

Ton o Weddi o Dde Corea!
**Tudalen 3**

Cyfrol Codi'r Llen – Maes Llafur i oedolion 2025/26
**Tudalen 6**

# Pobl gobaith mewn byd o ofn – Gweithdy diwinyddol i ystyried sut y gall Cristnogion a'r eglwys ddeall ac ymateb i'r ofn a'r chwerwder yn ein cymdeithas heddiw

## Dydd Sadwrn, 22 Tachwedd 2025 (10am–2pm)
## Caersalem, Stryd Garnon, Caernarfon

**I bwy?**
Mae'r gweithdy diwinyddol Cymraeg hwn – fydd yn cyfuno amser o fyfyrio, astudio'r Beibl a chlywed a thrafod cyflwyniadau cyfoes – yn addas i bob Cristion sy'n barod i feddwl yn graff am y syniadau a'r tueddiadau sy'n siapio ein cymdeithas heddiw.

Byddwn yn ceisio darllen yr amseroedd ond hefyd holi lle y mae cyfle i Gristnogion a'r Eglwys blannu hadau gobaith.

**Beth fydd trefn y diwrnod?**
Byddwn yn darparu amserlen bendant yn nes at yr amser, ond dyma syniad i chi o sut rydym yn rhagweld y bydd y diwrnod yn rhedeg:

10am – Croeso a phaned
10.30am – Sesiwn 1: Addoliad ac Astudiaeth Feiblaidd
11.00am – Sesiwn 2: Cyflwyniad a thrafodaeth
12.15pm – Cinio (dewch â bocs bwyd)
12.45pm – Sesiwn 3: Cyflwyniad a thrafodaeth
1.45pm – Crynhoi a gweddi i gloi
2.00pm – Gorffen

**Pwy sy'n trefnu'r gweithdy a beth oedd y weledigaeth?**
Gweledigaeth Rhys, Menna, Andras a Heledd yw'r gweithdy. Yn dilyn cyfnod o weld tueddiadau gwleidyddol a chymdeithasol yn mynd i gyfeiriad lle yr oedd ofn a chwerwder i'w gweld yn llywodraethu roeddent yn teimlo arweiniad i arfogi Cristnogion i feddwl ac ymateb yn gritigol ac adeiladol i'r tueddiadau hyn. Mae'r gweithdy yn cael ei gynnal a'i noddi gan y ddwy eglwys y maent yn eu harwain: Caersalem, Caernarfon a Gwreiddiau, Dinbych.

Os bydd y gweithdy'n llwyddiant, gobeithir trefnu mwy yn y dyfodol yn edrych ar wahanol agweddau o ddiwinyddiaeth a dyfodol yr Eglwys Gymraeg.

**Pwy yw'r cyfranwyr?**
Bydd y diwrnod yn cael ei arwain gan Rhys, Menna, Andras a Heledd, a byddwn hefyd yn croesawu ein cyfaill Corey Hampton i arwain un sesiwn.

Yn ogystal â chael profiad o ddegawd a mwy mewn arweinyddiaeth eglwys leol mae Rhys, Menna, Andras a Heledd wedi astudio'n academaidd i lefel doethuriaeth ym meysydd Diwinyddiaeth Gyhoeddus, Beirniadaeth Lenyddol, Diwinyddiaeth a Hanes yr Eglwys a Bioleg Foleciwlaidd.

Mae Corey ar hyn o bryd yn gorffen ei ddoethuriaeth ym maes Diwinyddiaeth Gymhwysol a newydd ei benodi fel Tiwtor mewn Diwinyddiaeth Gymreig yn Athrofa Padarn Sant.

**Oes cinio a darpariaeth i'r plant?**
Ni fyddwn yn darparu cinio, ond bydd yna doriad byr amser cinio. Felly, dewch â bocs bwyd gyda chi. Darperir te a choffi.

Ni fydd darpariaeth ffurfiol i'r plant, ond byddwn wedi trefnu fod ystafell gyfagos ar gael fel gofod chwarae i blant gyda rhieni/gwarchodwyr yn cymryd cyfrifoldeb drostynt. Bydd modd clywed sain o'r cyflwyniadau yn yr ystafell chwarae.

**Oes lle parcio?**
Dim ond llefydd parcio i breswylwyr sydd ar y strydoedd o amgylch y capel ond mae digon o feysydd parcio cyhoeddus o fewn pellter cerdded rhesymol. Gellid talu am y parcio yn defnyddio ap ar eich ffôn.

**Beth fydd iaith y digwyddiad?**
Gweithdy Cymraeg ei iaith wedi ei drefnu ar gyfer Cristnogion ac eglwysi Cymraeg gogledd Cymru fydd hwn. Mae'n bosib y gallwn ddarparu cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg, ond bydd y drafodaeth yn dilyn pob sesiwn yn digwydd yn yr iaith Gymraeg.

CROESO I BAWB!



# Ton o Weddi o Dde Corea!




Yr haf hwn, 120 mlynedd ar ôl i genhadon o Gymru gael eu hanfon i Dde Corea, fe wnaeth ton o weddi a chenhadaeth ddychwelyd i Gymru! Croesawodd nifer o eglwysi dimau gweddi cenhadol o Dde Corea yn ystod misoedd yr haf, gan gynnwys Eglwys Bethel yn Abergwaun. Dyma fyfyrdodau'r Parch. Neil Warburton am eu hymweliad …

Helô! Fy enw i yw Neil Warburton, gweinidog Eglwys Bethel yn Abergwaun. Cawsom y fraint hyfryd eleni o groesawu Tîm Gweddi Cenhadol o Corea ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd y tîm i ni gan Rob James a Phil Prosser sydd wedi bod yn croesawu timau tebyg ers rhai blynyddoedd erbyn hyn.

Esboniwyd wrthym fod timau wedi cael eu hanfon i Gymru mewn ymateb i ymdrech Gymreig 120 mlynedd yn ôl, pan gafodd cenhadon o Gymru eu hanfon i Dde Corea i hau gair Duw. Mae'r Coreaid eu hunain yn teimlo dyled o ddiolchgarwch i'r eneidiau dewr hynny, rhai ohonynt wedi colli eu bywydau i sefydlu'r Eglwys Gristnogol yng Nghorea.

Cyrhaeddodd y tîm o ddeuddeg yn oriau mân y bore ar 8 Gorffennaf, gan wneud eu cartref yn ddewr yn festri'r eglwys am yr wythnos ganlynol. Yno, bydden nhw'n cysgu ar welyau dros dro, yn cael cawodydd yn y ganolfan hamdden leol, ac yn bwyta'r bwyd a baratowyd ar eu cyfer gan ein tîm arbennig o fenywod.

Roedd Bethel wedi trefnu rhaglen o ymweliadau ar gyfer y tîm, gan gynnwys ymweld â'r ysgolion cynradd lleol. Wrth iddyn nhw wneud hynny, roedd hi'n syndod darganfod bod nifer o'r bobl ifanc yn gwybod mwy am ddiwylliant Corea trwy K-Pop a Gemau Squid nag oedden nhw'n gwybod am Iesu a'r Beibl! Roedd cyfle i ni hefyd ymweld ag eglwysi lleol, a rhannu mewn gwasanaeth a arweiniwyd gan y Parch. Jonathan yn Eglwys y Santes Fair, yn ogystal â chael amser o weddi yn Hermon.

Fe wnaethom ni hefyd gyflwyno'r tîm i aelodau Cyngor y Dref, oedd yn ymddiddori yn y rheswm dros eu hymweliad. Rhannodd aelodau'r Cyngor hanes byr am eu rhesymau eu hunain yn helpu'r gymuned, ac roedd cyfle i ni weddïo drostyn nhw yn eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Yr hyn nad oeddem ni'n ei ddisgwyl oedd y cyfarfodydd gweddi a gynhaliwyd bob nos rhwng 7 a 9 o'r gloch. Profwyd nad oedd y Coreaid yn geidwadol yn eu gweddïau, ond yn daer, yn angerddol, ac yn uchel iawn! Roedd hi'n dda gweld mor angerddol oedden nhw am bethau Duw, am ei gyfiawnder, ac am i deyrnas Dduw gael ei hadfer yma yn Abergwaun. Pe na bai hyn yn ddigon, ar ôl egwyl fach, bydden nhw wedyn yn parhau mewn gweddi tan ganol nos!

Fe deithiodd y tîm o Dde Corea ar eu traul eu hunain, gyda nifer ohonynt yn cymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau a'u gwaith. Teimlais i mi gael fy herio mewn ffordd ddwys gan eu haelioni. Yn ogystal â'u degwm i'r eglwys, roedden nhw'n barod i roi mewn ffordd mor wirioneddol hael. Tybed a ydw i, fel yn hanes hatling y wraig weddw yn y Beibl, yn rhoi o'm digonedd yn hytrach na phopeth sydd gen i ym mhethau Duw?

Bu llawer o ddagrau wrth iddyn nhw ymadael, pan dderbyniodd Eglwys Bethel lun o 'linyn tair cainc' â nifer o negeseuon wedi eu hysgrifennu arno. Fel eglwys, fe wnaethon ni deimlo gwir fendith o'r profiad, a hyder fod gan Dduw ei law ar Fethel ac ar ei gweinidogaeth i Abergwaun i'r dyfodol.



# Dadorchuddio plac ar safle Capel Rhiwfelen

Ar bnawn Sul glawog, 14 Medi eleni, cynhaliwyd gwasanaeth i gofio ac i ddiolch am dystiolaeth Capel Rhiwfelen am gant a hanner o flynyddoedd.

Adeiladwyd y capel yn 1863 ar lain o dir ychydig gannoedd o lathenni oddi ar y ffordd sy'n rhedeg rhwng Trawsgoed a Phont-rhyd-y-groes, gogledd Ceredigion. Rhoddwyd y tir ar les o fil o flynyddoedd namyn un gan un o hynafiaid Alun James, Caerdydd, oedd wedi gwneud yr holl drefniadau ar gyfer yr achlysur. Oherwydd y tywydd anffarfiol cawsom loches yn ei dŷ ef, sy'n ffinio ar safle'r capel gynt.







John Tudno Williams yn dadorchuddio'r plac

Rhannodd o ffrwyth ei ymchwil fanwl i hanes yr achos, gan ein hatgoffa bod tua mil o weithwyr yn llafurio yn y gweithfeydd mwyn yn yr ardal pan godwyd y capel. Diau fod Diwygiad 1859, o dan arweiniad Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth gerllaw, wedi dylanwadu'n fawr ar y trigiolion yn y cyfnod hwnnw. Yn nes ymlaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg soniwyd am hyd at saith Dosbarth Ysgol Sul ar y safle. Cafodd nifer o'r rhai a fagwyd yno, yn arbennig o dan weinidogaeth weithgar y Parchedig a Mrs D. Lewis Evans, o Drisant gerllaw, gyfle i adrodd eu hatgofion o'r cyfnod hwnnw. Ysywaeth, erbyn y cyfnod diweddar prinhaodd nifer yr addolwyr ac yn 2010 datgorfforwyd yr eglwys. Yna, yn 2024 ar orchymyn y Cyngor Sir bu'n rhaid dymchwel yr adeilad.

Peidiodd y glaw a chynhaliwyd y seremoni i ddadorchuddio'r plac hardd wedi'i wneud o un o gerrig llawr y capel.

Cyflawnwyd y ddefod gan gynrychiolydd yr Henaduriaeth, y Parchedig John Tudno Williams, a atgoffodd y gynulleidfa iddo bregethu gyntaf yno 62 o flynyddoedd yn ôl wedi iddo ddechrau ar ei weinidogaeth yn y Borth. Diolchodd hefyd am y croeso mawr a gawsai ar aelwydydd yr ardal a phob un o'r cartrefi y bu'n derbyn lletygarwch ganddynt wedi eu cynrychioli ar yr achlysur arbennig hwn.

Yna croesawyd yr holl gynulleidfa i gartref Alun a Heulwen James gerllaw i fwynhau danteithion a phaned ac i barhau i hel atgofion am a fu. Lluniodd Eurig Salisbury englyn ar gyfer yr achlysur a dyma fe:

**Capel Rhiwfelen**

Yn y bôn, er torri i'r byw – mae Ei rym
Ar waith, er pob distryw,
Mae'n y sylfaen wres eilfyw,
Mae adladd 'Addola Dduw'.

# Cymdeithas y Beibl ym Mhrestatyn

Gyda balchder a llawenydd mawr, adroddwn fod cangen Prestatyn o Gymdeithas y Beibl wedi ei hailsefydlu. Ar 3 Hydref, yn Eglwys Trinity cynhaliwyd cyfarfod arbennig a chroesawyd cynulleidfa gref yno gan y llywydd, Nerys Haf Biddulph. Arweinwyd y defosiwn gan y Ddiacon Linda Brown. Gyda Geraint Roberts yn cyfeilio cafwyd datganiad gwefreiddiol o emyn Tilsli, 'Mawl i Dduw am air y Bywyd' gan Marianne Symonds Roberts.

Cafwyd ychydig o hanes gorffennol y gangen gan y llywydd a phwysleisiodd y byddwn yn symud ymlaen gyda'n llaw yn ddiogel yn llaw Duw, a chan bwyso ar ei addewid y bydd ef yn 'llusern i'n troed ac yn llewyrch i'n llwybr'.

Paratowyd anerchiad grymus gan Sian Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, ac fe'i darllenwyd gan drysorydd y gangen, y Parch. Brian H. Jones. Gwerthfawrogwyd y neges yn fawr. Diweddwyd y cyfarfod mewn gweddi gan y Parch. Mike Smith, a pharatowyd lluniaeth ysgafn i bawb gan bwyllgor y gangen.



(o'r chwith) Mike Smith, Nerys Biddulph a Brian H. Jones

# Chwifiwn ein baneri …?

Chi'n cofio canu'r emyn yna yn y cwrdd plant a'r Gymanfa slawer dydd? Un o'r ffefrynnau ynghyd â 'Dring i fyny yma' ac 'Mae popeth yn dda'. Y ddau olaf, wrth gwrs, wedi cael bywyd newydd, diolch i'r diweddar Dewi Pws. Emynau hoffus, hwylus a chanadwy o gyfnod diniweidrwydd.

Doeddwn i ddim wedi meddwl amdano ers blynyddoedd, tan bnawn Sul diwethaf wrth deithio i gynnal oedfa. Roeddwn i yn ne-ddwyrain Lloegr, o fewn dalgylch yr M25, a dyma ddod ar eu traws nhw. Bron pob polyn lamp, ynghyd â chartrefi ar bob ochr o'r ffordd, yn arddangos baner Jac yr Undeb neu San Siôr. Rown i wedi darllen am y ffenomen hon yn y papurau ac wedi gweld lluniau ar y teledu, ond roedd gyrru trwyddynt yn brofiad arall! Na, doedd neb yno'n protestio, nac yn ymddwyn yn fygythiol neu'n gweiddi sloganau, ond roedd presenoldeb y baneri yn ddigon i beri amesmwythyd. A bu'r profiad yn troi yn y meddwl am weddill y dydd.

Wedi cyrraedd adref y noson honno dyma afael mewn copi o *Golwg* oedd wrth ochr y gwely a throi, fel y bydda i wastad yn ei wneud, at golofn Manon Steffan Ros. Yn rhyfedd iawn, 'Baneri' oedd ei thestun, ac yn ei ffordd unigryw ei hun dyma Manon yn llwyddo i fynd i galon y mater. 'Beth oedd pwynt baner?' yw'r cwestiwn mae hi'n ei adael gyda ni ar y diwedd.

Dyma gofio am brofiad arall gyda baneri tua deuddeg mlynedd yn ôl ar daith i Balestina. Treulio peth amser yn hen ddinas Jerwsalem, ac wrth gerdded trwy'r strydoedd cul yn yr ardal Foslemaidd/Arminaidd, sylwi ar sawl tŷ oedd yn chwifio baner Israel. Eglurwyd wrthym mai Iddewon oedd y perchnogion ond doedd neb yn byw yn y tai. Cyfle oeddent i wneud 'datganiad' am eu hawl hwy i'r ddinas! Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ar y Lan Orllewinol roedd y 'datganiadau' yn bloeddio'u presenoldeb o'r trefedigaethau anghyfreithlon ar y bryniau, gyda baneri di-ri Israel 'yn chwifio yn yr awel iach'!

Onid dyna'r gwir am y baneri welais i brynhawn Sul neu'r rhai a welwyd yn y protestiadau diweddar? Gwladgarwch? Balchder cenedlaethol? Go brin! Datganiad ydynt o'n 'hawl ni ar y wlad hon a does dim croeso i unrhyw estron yma!'

Fe fues i'n crafu mhen am sbel yn ceisio cofio gweddill yr emyn, oherwydd rown i'n siŵr bod rhywbeth yno oedd yn berthnasol i'r mater yma. A chofiais y llinellau nesaf, 'Pan fo sŵn anwiredd wedi llenwi'r tir, / canwn uwch y llygredd …' Gallent fod wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer ein cyfnod ni. Y celwydd diflewyn-ar-dafod a glywir yn gyson am fewnfudwyr a cheiswyr lloches gan wleidyddion a sylwebyddion, ac fel y dywedodd Rowan Williams mewn erthygl yn ddiweddar, 'Collective blame and indiscriminate violence are always the beginning of real moral corruption.'

Ie, 'canwn uwch y llygredd'. Codwn lais i herio'r celwydd gan sefyll gyda'r tlawd, y bregus, yr anghenus, y rhai sydd ar y cyrion, y rhai sy'n cael eu hamau a'u gwrthod. A 'chwifiwn ein baneri', gan ddatgan a gweithredu'r cariad a'r tosturi, y croeso a'r derbyniad sydd gan Dduw i bawb, fel a ddangoswyd yn Iesu.

*Robin Samuel*
(Gyda diolch i wefan Cristnogaeth21)

# Pan mae'r golau'n diffodd, mae Gen-Z yn codi


Roedd popeth yn barod am 6.30 o'r gloch nos Wener, 3 Hydref, pan ddaeth y tywydd stormus â thoriad trydan i'n lleoliad yn y Bala. Mewn eiliad, aeth rhai o'n cynlluniau allan drwy'r ffenest. Ond nid yw cynllun Duw yn dibynnu ar oleuadau na systemau sain. Cyneuwyd dwsinau o ganhwyllau, llenwodd dwsinau o bobl ifanc y lle, ac fe deimlwyd gwres yr Ysbryd Glân 🔥



Gweddïwyd dros ffrindiau a theulu sydd ar goll. Rhannwyd straeon am sut mae Duw'n defnyddio pobl ifanc gyffredin i ymestyn ei deyrnas (*shout out* i @firestarterswales am eu tystiolaeth anhygoel). Rhannwyd ysbrydoliaeth o hanes pobl Duw yng Nghymru. Cawsom ein hatgoffa o'n hunaniaeth fel plant Duw. Cafodd yr alwad i fyw ar genhadaeth yn ein gwlad ei glywed a'i dderbyn.


**Noson i'w chofio**
Rydyn ni'n gweddïo y gallai'r toriad annisgwyl yn y trydan fod yn ddelwedd o'r hyn y mae'r genhedlaeth hon yn ei brofi wrth iddynt gamu allan mewn ffydd. Pan fydd popeth yn ymddangos wedi ei golli ac yn dywyll, bydd y genhedlaeth hon sy'n dilyn Iesu'n codi yng ngoleuni Crist, gan droi llefydd tywyll yn llefydd hardd yn ei enw Ef.

*Tîm 100 i Gymru*



## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

### Maes Llafur i oedolion 2025/26




O'r wythnos hon ymlaen byddwn yn dechrau ar gyfres o astudiaethau'n seiliedig ar gymeriadau allan o'r gyfrol *Codi'r Llen*, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn, yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o *Unveiled,* yn 2023, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel sail i'n hastudiaethau dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos yn wythnosol yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, i'n cyfeirio ar hyd y daith. Sian Meinir o Benarth fydd yn gyfrifol am y rhain, a chawn fyfyrdod wythnosol ganddi ar ffurf monolog, yn ein cyflwyno i'r cymeriad, cyn troi at y bennod yn y gyfrol, ac yna cloi gyda chwestiynau a gweddi wedi eu paratoi gan Sian.

Mae rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, ond prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio. Hyd yn oed pan maent, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac wedi'i ddarlunio gan waith celf trawiadol artist ifanc o Rydychen, yn archwilio storïau 40 o ferched mewn 40 o ddyddiau. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi. Cyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg fel prosiect gyda chriw'r Tabernacl, Caerdydd, gyda Ruth Davies yn llywio'r prosiect ac yn gweithredu fel golygydd. Mae'r llyfr ar gael o'ch siop Gymraeg leol neu mae modd prynu copi digidol (pdf) ar lein o Maes Llafur Ysgol Sul i Oedolion - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru.

**Ymson Efa**

Cofiaf, wrth sefyll o flaen y goeden, imi weld y ffrwyth a theimlo pwysau tragwyddoldeb ar f'ysgwyddau. Yn y foment honno, tawelodd yr ardd o'm cwmpas – sibrydai'r dail yn betrus, arafodd byrlymau'r ffrwd, a daeth trydar yr adar bach i ben. Daliodd y bydysawd ei wynt, a disgwyl. Roedd dail y goeden yn sgleinio yn yr haul a'r ffrwyth yn fy ngwahodd i ymestyn ato. Dychmygais y blas – yn fêl o felys a'r sudd fel neithdar. Clywais lais Adda'n atseinio yn fy nghlust, ond allwn i ddim tynnu fy sylw oddi ar ffrwyth y goeden.

Roedd popeth mor berffaith yma a ninnau mor hapus. Ond nawr, roedd rhyw flys yn codi yn fy mherfedd ac yn dringo hyd fy nghalon, a fedrwn i mo'i anwybyddu. Beth oedd pwrpas y dyhead hwn, os na allwn ei ddiwallu? Amhosib oedd peidio anwesu'r cyffro hwn y tu mewn imi. Sut deimlad fyddai meddiannu'r blas a chael gwybod y cyfan? Sut beth fyddai cael gweld drwy lygaid Duw ei hun? Oeddwn i wir eisiau codi llen fy niniweidrwydd?

Yna, daeth y llais, gan droelli'n gyfrwys o dyner, "Fyddwch chi ddim yn marw."

Estynnais yn araf am y ffrwyth, a'm bysedd yn crynu, nid o ofn ond o ryfeddod. Teimlais ei sawr ac ogleuo'i lyfnder. Un brathiad ac roedd yn fwy amheuthun na dim roeddwn wedi'i flasu o'r blaen. Rhedodd yr hylif drwy fy ngwythiennau. Yna daeth y surni, yn flas newydd a chwerw ar fy nhafod. Cymerais frathiad arall, ac yna un arall. Yn araf dechreuodd yr ardd symud o'm cwmpas, fel set theatr yn newid golygfa. Pylodd y golau, daeth y cysgodion i lenwi'r corneli, ac am y tro cyntaf erioed gwelais y tywyllwch.

Llechai Adda yn y gornel, yn fy ngwylio, a dieithrwch yn ei wedd fel pe na bai'n f'adnabod. Yna gwelais myfi fy hun ym mhwll y ffynnon – yn brydferth ond yn amherffaith. Cyn heddiw roedd nodweddion fy wyneb yn gytbwys, ond nawr roedd un llygad ychydig yn is na'r llall, a gwelais grychau lle bu'r croen fel melfed. Roedd hyn fel rhyw fath o ddeffroad; ro'n i'n rhydd ond eto wedi fy nghaethiwo yr un pryd. Fe gefais ddewis, a nawr roedd popeth wedi newid. Edrychais tua'r nefoedd i chwilio am wyneb Duw, a'r unig beth a welwn oedd pellter.

Fe fyddant, ymhen canrifoedd, yn ei alw'n bechod. Fe fyddant yn fy meio, yn fy mychanu ac yn edliw fy modolaeth. Efa, y ferch a gymerodd risg er mwyn cael gweld y da a'r drwg. Do, cefais brofi beth yw byw yn ei gyfanrwydd. O hyn allan, daw poen i flino fy nyddiau a bydd crafangau hiraeth am yr hyn a fu ar fy nghefn. Ond, er pob ofn, ceisiaf ganfod y rhyfeddodau yn fy nyddiau. Dyheaf am weld cariad yn egino ar bridd sych, ac fe gydiaf wrth y gobaith sy'n parhau. Ni allaf gondemnïo'r ffrwyth. Ynddo a thrwyddo fe ddeuthum yn berson cyflawn – yn gymysg oll i gyd. Er i Ti ein herlid o'r ardd ac i'r glwyd gau y tu ôl inni, fe gerddaf ymlaen yn ffyddiog. Byddaf yn dyheu amdanat Ti ynghanol dwndwr y byd, yn chwilio amdanat yn y mawredd mawr. Oherwydd, hyd yn oed yn ein halltudiaeth, rydym i gyd wedi ein creu ar dy lun a'th ddelw Di.

**Holi**

- Sut ydych chi'n teimlo'n tuag at Efa? Ydych chi'n tosturio wrthi, neu'n ei beirniadu a'i beio?
- Ydych chi wedi cael profiad o gael eich gwahanu oddi wrth Dduw? Ai dyma beth yw pechod, yn eich barn chi?
- Ydy'r gwahanu hwnnw wedi golygu rhyw fath o adnewyddiad yn eich perthynas chi â Duw?
- Fe deimlodd Iesu Grist y bwlch rhyngddo a'i Dad yng ngardd Gethsemane, ond dewisodd dderbyn y cynllun ar ei gyfer. Ydych chi'n ymwybodol o gynllun Duw ar eich cyfer chithau?
- Beth sydd gan Efa i'w ddweud wrthym ni heddiw?

**Gweddi**

Rho inni, O Dduw, yr awyddfryd i agor ein clustiau i glywed dy eiriau. Cyfeiria ein golygon i weld bod y stori'n berthnasol i'n bywyd ni. Planna ynom eiddgarwch i ddeall ystyr dy neges ac i sylweddoli bod sgileffeithiau i'r dewisiadau a wnawn. Cyfarwydda ein camre ar hyd llwybr doethineb a gwared ni rhag ein camgymeriadau ffôl. Boed inni ystyried eraill yn ein penderfyniadau, a gwna ni'n gytbwys yn ein hymwneud a'n dweud bob amser. Amen.

S4C

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 19 Hydref, am 7.30yh – Y Cynhaeaf**

Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â chefn gwlad sir Drefaldwyn i ddathlu tymor y cynhaeaf. Cawn gwrdd â'r ffermwr ifanc Lloyd Davies o'r gyfres deledu *Our Dream Farm* a dysgu am fenter gymunedol flaengar i leihau gwastraff bwyd. Daw'r canu mawl o Gapel y Tabernacl, Llanfyllin.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 19 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Anna Jane Evans

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 19 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Elinor Wyn Reynolds

# Blwyddyn Gap Coleg y Bala ’25



Unwaith eto mae’r Arglwydd wedi bod yn ffyddlon wrth roi myfyrwyr blwyddyn gap i ni yng Ngholeg y Bala. Rydym mor ddiolchgar am y ddarpariaeth yma bob blwyddyn – o fyfyrwyr a chefnogaeth gan EBC ar gyfer cynnal y gwaith! Bu Deborah, Shaina a Sioned yn gwasanaethu’n ffyddlon ac yn dda ar hyd y flwyddyn a aeth heibio, ac rydym yn llawn cyffro am y bennod nesaf yn eu hanes! Parhawn i’w cefnogi yn eu mentrau newydd a dymunwn y gorau iddyn nhw, a hwythau’n gwybod y bydd croeso bob amser yma.

Ymunodd Cian Williams, Sam Muir ac Emily Gerling â ni eleni! Mae’r tri ohonynt wedi bod yn rhan o weithgaredd y ganolfan drwy fynychu cyrsiau, a rhai ohonynt hefyd wedi gwasanaethu fel arweinwyr ifanc ar gyrsiau. Fel bob amser, mae’r rhaglen blwyddyn gap yn cynnig profiad llawn gyda digon i fod ynglŷn ag o. Byddwn yn addasu’r rhaglen yn flynyddol i weddu i’r myfyrwyr sydd arni gan greu lle iddynt dyfu yn eu ffydd bersonol yn ogystal â datblygu’r doniau a roddodd Duw iddynt. Byddwn yn falch o’r cyfle i barhau i’w mentora, ac mae hyn yn fraint fawr ac yn un o uchafbwyntiau’r gwaith yma.

*Owain a Sian Edwards*
*Rheolwyr Coleg y Bala*

**Sam Muir – 19 oed o Landudno**
Teimlais Dduw yn fy ngalw i geisio ar gyfer blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala. Dwi’n gweld y flwyddyn yn gyfle gwych i wasanaethu’n fwy llawn yn Ei waith ac i ddyfnhau fy mherthynas gydag Ef. Yn ystod yr amser hwn, rwy’n gobeithio cerdded ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc ar eu taith ffydd wrth dyfu mewn hyder hefyd i rannu newyddion da’r efengyl.

**Cian Williams – 20 oed o Gaernarfon**
Wnes i ddim cael fy magu mewn cartref Cristnogol, felly fel plentyn doedd gen i ddim cyfle i glywed am Iesu o gwbl. Es i i Goleg y Bala am y tro cyntaf yn 2022 ac rydw i wedi dod yn ôl dro ar ôl tro ers hynny. Y llynedd, yn ystod cwrs Souled Out, rhoddais fy mywyd i Iesu. Rydw i nawr wir eisiau rhannu fy ffydd ag eraill, ac rydw i wedi cael y fraint o rannu gyda ffrindiau adref. Hoffwn ddatblygu’r sgiliau i rannu newyddion da’r efengyl yn effeithiol ag eraill. Rydw i hefyd eisiau tyfu’n ddyfnach yn fy ffydd, ac rydw i’n gwybod y bydd bod yng nghwmni pobl Dduw yma yn fy helpu fi i wneud hynny.

**Emily Gerling – 19 oed o’r Bala**
Rwyf wedi cael y fraint o dyfu i fyny mewn teulu Cristnogol. Rhoddodd hynny lawer o gyfleoedd i mi sylwi neu gymryd rhan mewn helpu eraill drwy amseroedd blin a llawen – er enghraifft, fy mrawd a’m chwaer sy’n cael eu maethu, a da oedd cael cyfle i rannu’r efengyl gyda nhw. Yn 2024, fe wnes i’r penderfyniad o gael fy medyddio a rhoi fy mywyd i Dduw. Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli yng Ngholeg y Bala ar nifer o gyrsiau, sydd wedi fy arwain i weld y gymuned Gristnogol ryfeddol sydd yma yn y Bala.

Mae Duw wedi fy mendithio efo doniau – i ddangos cariad, i wasanaethu ac i helpu eraill, sydd wedi fy arwain at ddewis gwneud fy mlwyddyn gap yng Ngholeg y Bala. Rwy’n gobeithio bod o ddefnydd a chael effaith ar lawer yn y flwyddyn i ddod drwy rannu’r newyddion da. Hefyd, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rwy’n gobeithio gweld fy ffydd yn dyfnhau a chael mwy o hyder wrth rannu’r efengyl.

# Croeso i Sasiwn y De ym Mhontyberem

Braint yw cael croesawu pawb i Gymdeithasfa’r De, sy’n cael ei chynnal yn Soar, Pontyberem, sir Gaerfyrddin, ddydd Iau, 16 Hydref 2025.

Dau gyfarfod fydd yna’r tro yma. Bydd y cyfarfod cyntaf, i gynrychiolwyr yn unig, yn dechrau am 10:30 y bore, gyda phaned ar gael o 10 o’r gloch ymlaen.

Yna cynhelir Oedfa Gymun a Choffâd am 12:30 o’r gloch, pan fyddwn yn cael ein harwain at fwrdd y Cymun gan y Parch. Carwyn Arthur, Llywydd y Gymdeithasfa. Mr Mel Morgan fydd yn agor y Gair ac yn rhannu neges.

Bydd yr oedfa hon yn agored i bawb, a hyderwn y gwelwn gynulleidfa dda yn ymuno â ni. Yn ogystal â hynny, bydd modd ymuno yn rhithiol, trwy Zoom (Am ddolen Zoom, cysylltwch ag: emyr.williams@ebcpcw.cymru)



Estynnwn groeso cynnes Cwm Gwendraeth i chi i gyd, a gweddïwn am fendith Duw ar ein cyfarfodydd.

Ble mae Soar? Cod Post: SA15 5ED – neu What Three Words: ///pothole.twit.freezing

Yn edrych ymlaen i’ch gweld chi.

*Emyr Williams*
*(Ysgrifennydd)*

## CYMDEITHAS EMYNAU CYMRU

**Eleazar Roberts a’r Tonic Sol-ffa yng Nghymru**

**darlith gan Dr Rhidian Griffiths Llywydd y Gymdeithas Emynau**

**Nos Fercher, 26 Tachwedd 2025**

**am 7.30 o’r gloch**


I dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch ag E. Wyn James: JamesEW@cardiff.ac.uk

# Dathlu cyfraniad ein nofelydd mwyaf poblogaidd – a rhan olaf dyddiadur dadlennol 'Prifathro wrth ei Ewyllys'

Bywyd, gwaith a chyfraniad Islwyn Ffowc Elis, nofelydd mwyaf poblogaidd Cymru'r ugeinfed ganrif ac enillydd gwobr Llyfr y Ganrif, sef *Cysgod y Cryman*, yw testun prif erthygl rhifyn Hydref o'r *Traethodydd*. Perthynas i Islwyn, sef Rheinallt Llwyd, yw'r awdur, ac mae'r erthygl yn seiliedig ar ddarlith gyhoeddus a enynnodd gryn ddiddordeb pan draddodwyd hi mewn mwy nag un cylch ddiwedd y llynedd a dechrau'r flwyddyn hon.

Dathlu canmlwyddiant geni Islwyn oedd y nod, ac mae'n mynd â ni o'i fagwraeth yn Nantyr, Dyffryn Ceiriog, yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf, heibio i'w addysg yn ysgol y pentref, yr ysgol uwchradd yn Llangollen, Coleg y Brifysgol ym Mangor a'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth a Choleg y Bala wedyn. Ym Mangor yn niwedd y tridegau a dechrau'r pedwardegau y gwnaeth enw i'w hun fel awdur, dramodydd a lluniwr sgriptiau difyr, yn un o'r to hynod ddawnus a chreadigol oedd yno ar y pryd, criw oedd yn cynnwys Merêd, Dr Meredydd Evans, 'Triawd y Coleg', a phobl ddisglair eraill.

Ceir sôn am ei flynyddoedd rhwystredig fel gweinidog, ym Maldwyn ac yna ym Môn, er mai o'r rhwystredigaeth hon y tarddodd y ddwy nofel a weddnewidiodd hanes y nofel Gymraeg, sef *Cysgod y Cryman* ac *Yn ôl i Leifior*. Mae'n olrhain ei hanes wedi hynny, fel awdur ar ei liwt ei hun, y cyntaf i geisio gwneud bywoliaeth o lenydda yn Gymraeg, yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, yn gyfarwyddwr cyhoeddi gyda'r Cyngor Llyfrau, yn awdur ar ei liwt ei hun eilwaith, ond yn Wrecsam y tro hwn, a'i swydd broffesiynol olaf fel uwch-ddarlithydd mawr ei ddylanwad yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Llwybr igam-ogam a gymerodd, ys dywed Rheinallt Llwyd, gan wynebu mwy nag un rhwystr ar y ffordd. Caiff y cwbl ei osod allan yn ddeheuig iawn yma, gyda thoreth o luniau difyr i nodi'r gwahanol gamau. Gwych o beth yw medru dathlu camp awdur mor bwysig a personoliaeth hoffus dros ben.




Yn ail ran ei ysgrif 'Cymdeithas, Bro ac Adferiad', mae Eurwyn Wiliam yn parhau â'i ddadansoddiad o gyfraniad y diweddar Trefor M. Owen i astudiaethau gwerin Cymru. Canolbwyntio ar ddadansoddiad blaengar y gwrthrych o natur yr economi gwledig a wneir y tro hwn, ynghyd ag arferion llên gwerin ac ethnoleg ranbarthol. Mae'r paragraff clo yn crynhoi cyfraniad gŵr eithriadol fonheddig a diymhongar, 'yr unig ysgolhaig Cymreig i edrych ar sawl agwedd bwysig o'n hanes fel pobl'.

Wrth werthfawrogi gwaith holl awduron y cylchgrawn ar hyd y flwyddyn, yr un cyfraniad sydd wedi tynnu'r sylw ehangaf yw 'Dyddlyfr Prifathro wrth ei Ewyllys', sef atgofion hynod fywiog a gafaelgar Derec Llwyd Morgan o'i gyfnod yn llywio Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn negawd olaf yr hen ganrif ac i mewn i'r ganrif hon. Cafwyd tair ysgrif hyd at y rhifyn diwethaf, a dyma ni'n cyrraedd y bedwaredd a'r olaf, sy'n mynd â'r stori hyd at ei ymddeoliad yn 2004. Ni chaiff neb sydd wedi darllen yr ysgrifau eraill ei siomi y tro hwn. Mae'n dadlennu llawer nid yn unig amdano'i hun fel gweinyddwr, ffigur cyhoeddus a gŵr i Jane, tad i Elin a thad-cu i Joel, ond mae'n darlunio rhai o symudiadau pwysicaf bywyd politicaidd ac academaidd y Gymru sydd i'w gweld, ysywaeth, ymhell yn ôl erbyn hyn. Ond diolch, Derec, am roi i ni gyfres mor ddifyr-ddadlennol a gaiff ei hystyried maes o law yn ddogfen hanesyddol o bwys.

Beirdd y rhifyn hwn yw Robert Lacey ac Aled Jones Williams, a'n hadolygydd yw Dafydd Johnston sy'n tafoli cyfrol ddiweddar hynod ddeniadol, sef *Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010–2024*, sylwedd darlithoedd gan amryw byd o'n beirniaid, Rowan Williams ac M. Wynn Thomas yn eu plith. Os bardd mwyaf yr ugeinfed ganrif oedd Waldo, fel y myn rhai, ceir yma ddathliad teilwng o'i athrylith.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

**Rydym yn hapus iawn i gynnwys hysbysiadau am ddigwyddiadau, ond gwnewch yn siŵr fod o leiaf pythefnos o rybudd cyn dyddiad eich digwyddiad er mwyn rhoi digon o amser i ni ei gynnwys ac i bobl wneud eu cynlluniau ymlaen llaw.**

*Gol.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru